# FRIMSTON, THOMAS ('Tudur Clwyd '; 1854 - 1930), gweinidog y Bedyddwyr, hanesydd, a hynafiaethydd

**Enw:** Thomas Frimston
**Ffugenw:** Tudur Clwyd
**Dyddiad geni:** 1854
**Dyddiad marw:** 1930
**Priod:** Sarah Eleanor Frimston (née Roberts)
**Rhiant:** Thomas Frimston
**Rhyw:** Gwryw
**Galwedigaeth:** gweinidog y Bedyddwyr, hanesydd, a hynafiaethydd
**Maes gweithgaredd:** Crefydd; Hanes a Diwylliant; Llenyddiaeth ac Ysgrifennu; Ysgolheictod ac Ieithoedd
**Awdur:** Benjamin George Owens

Ganwyd 28 Gorffennaf 1854 yn Rhuddlan, yn fab i Thomas, mab Thomas a Jane Frimston ac yn frawd i John Frimston, gweinidog Trehafod (bu farw 1930). Derbyniwyd ef i Goleg Llangollen yn 1876 a bu'n weinidog yn Llangefni (1879-82), Brynhyfryd, Abertawe (1882-7), Garn Dolbenmaen a Chapel-y-beirdd (1887-93), Llangefni drachefn (1893-1904), a chodi yno gapel coffa Christmas Evans, ac, yn olaf, yn Hen Golwyn (1904-30). Priododd, 13 Mehefin 1882, Sarah Eleanor Roberts (bu farw 1 Mai 1927), merch Edward Roberts, Llangollen, a ganwyd iddynt bump o blant. Bu farw 12 Mai 1930 yn 76 oed.

Cofir Frimston yn arbennig am ei waith ymchwil ar hanes ei enwad, megis *Ebenezer: Hanes Eglwys Fedyddiedig Llangefni*, 1897; *Canrif o Ymdrechion Bedyddwyr Môn*, 1902; ac amryw o erthyglau yng nghylchgronau'r enwad, yn bennaf ar ' Bedyddwyr Sir Fflint ' yn *Y Greal*, 1907-10, 1917, a *Seren Gomer*, 1921, 1923-4, ac ar ' Bedyddwyr Môn ' yn *Seren Gomer*, 1925-6. Cyhoeddwyd amryw eraill o'i weithiau, megis *Y Cyssonydd Ysgrythyrol*, 1885; *Crefydd ym Mhlwyf Rhiwabon*, 1890; *Ofergoelion yr Hen Gymry* (d.d.); a *Holwyddoreg Ysgrythyrol* (d.d.); ac ymddengys ei enw ymhlith awduron *Y Gwyddoniadur Cymreig*. Enillodd hefyd ddwy wobr am draethodau yn yr eisteddfod genedlaethol - yn y Rhyl (1892) ar ' Hynafiaethau Sir Fflint,' ac ym Mhontypridd (1893), ar ' Y Cymry a ymfudodd ac a gododd i enwogrwydd yn yr America a'r Taleithiau Prydeinig.' Bu'n ysgrifennydd Cymdeithas Lyfrau Bedyddwyr Cymru, ac yn llywydd cymanfaoedd Môn (1897) a Dinbych, Fflint, a Meirion (1926).

## Awdur

**Benjamin George Owens**

## Ffynonellau


*Seren Gomer*, 1932, 1-5 (darlun)

*Seren Cymru*, vi, 1930

*Baptist Handbook*, 1931

*Llythyr Cymmanfa Bedyddwyr Dinbych, Fflint a Meirion ynghyd â mynegiadau y Gymdeithas Genhadol Gartrefol a'r Gymdeithas Fenthyciol* (Undeb Bedyddwyr Cymru 1925), 1926, 5 (darlun)

*Catalogue of Printed Literature in the Welsh Department, Cardiff Free Libraries* (1898) (copi personol J. H. Davies)


## Dolenni Ychwanegol

VIAF: 19194709

Wikidata: Q20734450


**Dyddiad cyhoeddi:** 1953



**Hawlfraint Erthygl:** http://rightsstatements.org/page/InC/1.0/

Mae'r Bywgraffiadur Cymreig yn cael ei ddarparu gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru a Chanolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru. Mae ar gael am ddim ac nid yw'n derbyn cymorth grant. Byddai cyfraniad ariannol yn ein helpu i gynnal a gwella'r wefan er mwyn i ni fedru parhau i gydnabod Cymry sydd wedi gwneud cyfraniad nodedig i fywyd yng Nghymru a thu hwnt.

Ewch i'n tudalen codi arian am ragor o wybodaeth.

Cyfrannu